# Arweiniad Cwlwm



## Cau Lleoliad Gofal Plant neu Chwarae Dros Dro neu mewn Argyfwng

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi pob darparwr gofal plant a chwarae, gan gynnwys lleoliadau grwpiau neu warchodwyr plant i baratoi ar gyfer cau eu lleoliad dros dro neu mewn argyfwng. Sylwch nad yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu pob posibilrwydd a dylai lleoliadau gydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol a cheisio cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen wrth i faterion godi.


Mae'n bwysig bod lleoliadau'n barod ar gyfer amgylchiadau annisgwyl, a'r posibilrwydd y gallai fod angen iddynt gau eu lleoliad dros dro, neu adael, oherwydd argyfwng sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Gall amgylchiadau annisgwyl godi yn ystod oriau gwaith arferol neu y tu allan iddynt, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau; yn y lleoliad neu yn ystod gwibdeithiau i ffwrdd o'r lleoliad.

Gall datblygu Cynllun Parhad Busnes (CPB) eich helpu i feddwl am y camau gweithredu gofynnol, a chynllunio ar eu cyfer, yn ystod neu ar ôl argyfwng neu ddigwyddiad sy'n bygwth eich busnes arferol, a dod â'r holl wybodaeth ynghyd mewn un lle. Er enghraifft, os bydd llifogydd, tân neu ddifrod arall i'ch lleoliad yn golygu na allwch weithredu fel arfer, mae yna bethau y byddai angen i chi eu gwneud. Byddai'r rhain yn cynnwys cysylltu â'r holl staff a rhieni/gofalwyr i roi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd, a threfnu gydag yswirwyr a rheoleiddwyr i gael eich busnes yn ôl eto'n weithredol.

Mae sefydlu CPB ar gyfer cau dros dro ac achosion brys yn sicrhau y gall pawb weithio'n effeithlon gyda'i gilydd. Byddai hynny'n help i sicrhau diogelwch plant, eu teuluoedd, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, yn ogystal ag yn gymorth tuag at ail-agor, a chynaliadwyedd parhaus y lleoliad a lles pawb sy'n gysylltiedig ag ef. Os yw eich lleoliad yn cael ei rannu ag eraill, megis lleoliad gofal plant mewn ysgol, bydd angen cynllunio ar y cyd i sicrhau bod y cynlluniau'n cyd-fynd â'i gilydd.

Efallai y bydd angen i chi hefyd ystyried cynllun os bydd angen i'r lleoliad symud i safle mwy diogel e.e. symud o gaban ar dir yr ysgol i'r prif adeilad mewn tywydd garw.

Dylai lleihau aflonyddwch gofal i blant a'u teuluoedd fod yn flaenoriaeth.



# Pam fyddai angen cau lleoliad?

Gall y rhesymau gynnwys:

- Difrod gan lifogydd neu ddŵr
- Colli cyflenwad dŵr/ cyfleustodau
- Tân
- Amodau tywydd eithafol e.e. gwres, llifogydd
- Effeithiau trychineb yn yr ardal
- Achosion o haint hysbysadwy, neu bandemig cenedlaethol/ byd-eang
- Cyfnod clo brys neu gau er enghraifft oherwydd risg sylweddol*
- Anaf difrifol i blentyn, ymwelydd, aelod o'r staff
- Toriad yn y cyflenwad trydan, gollyngiad nwy
- Toriad mawr, cenedlaethol yn y cyflenwad o bŵer
- Gweithgaredd troseddol (er enghraifft, bygythiad bomiau, ymosodiad gwrthgymdeithasol neu fygythiol, tresmaswr, ymosodiad yn erbyn seibr-ddiogelwch)
- Materion sy'n atal mynediad (er enghraifft gwaith adeiladu, neu gau'r safleoedd cynnal megis ysgolion/ canolfannau cymunedol)

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ystyriwch y gallai fod amgylchiadau annisgwyl eraill sy'n achosi i leoliadau gau.

* (er enghraifft gweithred o derfysgaeth neu risg diogelu arall i blant, staff ac eraill yn y lleoliad)

# Ym mhle i ddechrau

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed yn cynnwys y gofyniad i leoliadau fod â gweithdrefn i'w dilyn os bydd tân neu ddamwain. Yn ogystal, mae angen i leoliadau mewn adeiladau annomestig roi sylw i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Efallai y bydd sefydliadau partner Cwlwm yn gallu eich cefnogi ymhellach i ddatblygu eich asesiadau, polisïau a gweithdrefnau risg ar gyfer cau dros dro a chau mewn achosion brys.

# Asesiad Risg

Mae angen cynnal asesiadau risg trylwyr er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau annisgwyl megis y rhai a amlinellir uchod. Er enghraifft, mae'n bwysig darganfod a ydych mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd. Yna gallwch lunio cynllun penodol parthed ymateb i lifogydd er mwyn i staff a theuluoedd fod yn barod pe bai llifogydd yn digwydd. Dylech adolygu unrhyw asesiadau risg yn rheolaidd ac o leiaf bob blwyddyn i wirio eu bod yn dal i fod yn adlewyrchiad cywir o'r risg dan sylw.







# Cynllunio



Yn dilyn eich asesiad risg, mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw a gwneud paratoadau yn awr yn barod ar gyfer unrhyw sefyllfa frys. Ymgysylltwch â staff a phwyllgorau rheoli i gael eu cyfranogiad a'u cefnogaeth.

Yn gymorth i'ch cynllunio, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddatblygu **Pecyn Cau Lleoliad** y gallwch chi, neu'ch staff, fel y bo'n briodol, fynd iddo am wybodaeth i arwain y lleoliad trwy gau dros dro neu mewn argyfwng. Gallai hyn gynnwys polisïau a gweithdrefnau; cynlluniau ymateb a rhestrau gwirio; templedi o asesiadau risg, manylion cyfathrebu a manylion cysylltu ar gyfer y rhai y mae angen i chi eu hysbysu. Mae'n bwysig egluro rolau a chyfrifoldebau, pryd a sut i ofyn am gyngor os oes angen a sut i ymateb os nad yw'r cyngor yn cael ei dderbyn.


**Ystyriwch sut y gallai eich cynllun gynnwys:**

- Paratoi (gan gynnwys cynllunio ariannol)
- Hysbysiadau i deuluoedd, staff, AGC (drwy AGC Ar-lein) ac awdurdodau eraill
- Manylion am y mathau o gamau y gellid eu cymryd pe bai argyfwng a pha gamau y dylid eu cymryd i'w rhoi ar waith yn gyflym
- Cynllun a gweithdrefn gwacáu brys
- Cadw mewn cysylltiad â theuluoedd, staff ac awdurdodau eraill yn ystod cyfnod o gau dros dymor byr a thymor hir, a chefnogaeth i les y plant a'r staff
- Cadw cofnodion
- Ail-agor
- Adolygiad o weithdrefnau ar ôl cau

Byddwn yn awr yn edrych ar bob un o'r pwyntiau hyn yn fwy manwl.

# Paratoad

Gallai hyn gynnwys:



- **Adolygu polisïau a gweithdrefnau** a datblygu polisïau newydd yn ôl yr angen, gan gynnwys:
  - Adolygu'r drefn bresennol os bydd tân neu ddamwain
  - Polisi a gweithdrefn cau brys, i gynnwys cynlluniau ar gyfer sefyllfaoedd penodol megis llifogydd, tywydd garw, bygythiad terfysgaeth neu weithred o derfysgaeth, sefyllfaoedd eraill o gyfnodau clo brys, lledaeniad o salwch heintus, toriadau mewn cyflenwad pŵer, gollyngiadau nwy, neu angen o'r tu allan ar i'r safle gau.
  - Polisi talu/ffioedd yn ystod cyfnod o gau
  - Bod diogelwch plant a staff yn cael eu hystyried yn llawn mewn asesiadau risg a'u bwydo i mewn i amrywiol bolisïau a gweithdrefnau megis iechyd a diogelwch, gwacáu/argyfyngau, cyrraedd a chasglu plant, diogelu data ac ategu eich polisi diogelu
  - Polisi seibr i fynd i'r afael â digwyddiadau seibr-ddiogelwch
  - Ystyriwch sut y gallai fod angen i chi addasu polisi derbyn er mwyn blaenoriaethu lleoedd dros dro i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, er enghraifft oherwydd lefelau uchel o absenoldeb yn y gweithlu. Gall plant lenwi'r mannau sy'n weddill y tu allan i'r grwpiau blaenoriaeth hyn
- Dylid ymarfer **gwacáu mewn argyfwng** yn rheolaidd. Efallai y byddwch am ystyried cael bag gwacáu brys gyda hanfodion rhag ofn y bydd yn rhaid i chi symud yn gyflym, gallai hyn gynnwys ffôn symudol, manylion cyswllt, pecyn cymorth cyntaf, dillad gwrth-ddŵr / blancedi, eitemau gofal babanod, diodydd a byrbrydau er enghraifft. I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud os bydd llifogydd ar fin digwydd, gweler Rhybuddion am Lifogydd a Help mewn Llifogydd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Dysgwch o'r ymarfer ac addaswch weithdrefnau yn ôl yr angen.
- **Mae angen i gynlluniau wrth gefn** fod ar waith os bydd problem ehangach ynghylch pŵer a allai effeithio ar allu rhieni neu ofalwyr i gysylltu â'r lleoliad ac o bosibl i gasglu eu plant yn brydlon.



Wrth ystyried cynllun sy’n ymwneud â cholli pŵer / cyfleustodau yn annisgwyl, bydd ar leoliadau angen polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer casglu plant. Bydd angen i leoliadau ystyried effeithiau posibl colli pŵer, er enghraifft colli rhwydweithiau symudol. Gallai mater pŵer ehangach effeithio ar allu rhieni neu ofalwyr i gysylltu â’r lleoliad ac o bosibl i gasglu eu plant yn brydlon. Bydd angen i leoliadau fod â phroses ar waith yn amlinellu sut y bydd plant yn cael gofal a’u cadw’n ddiogel os yw eu rhieni/gofalwyr yn cael eu hoedi rhag eu casglu o’r lleoliad.

Mewn achos o golli pŵer / cyfathrebu cenedlaethol, mae angen i baratoadau fod yn eu lle yn y lleoliad. Dylai lleoliadau ystyried argraffu copïau papur o gofrestrau, manylion cyswllt brys a’r canllawiau diweddaraf, ac ystyried lle addas ar gyfer storio dogfennau copi caled. Gallai hyn hefyd gynnwys sicrhau mynediad yn y lleoliad at gyflenwadau brys, er enghraifft pecyn cymorth cyntaf, dillad gwrth-ddŵr/blanced, eitemau gofal babanod, bwyd a diod (gan gynnwys dŵr potel rhag ofn bod cyflenwadau dŵr wedi’u halogi), tortsh, batris a radio FM a weithredir gan fatri. Mewn achos o doriadau pŵer sylweddol, bydd cyhoeddiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar y radio.

- **Cytundebau/contractau rhiant/gofalwyr** – yn ogystal â chontractau â rhieni/gofalwyr a pholisïau a gweithdrefnau lleoliadau, gallai cytundebau rhieni/gofalwyr yn ogystal fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, fel yn achos y pandemig, gallai fod yn ddefnyddiol amlinellu cyfrifoldeb pawb i hysbysu a rhannu gwybodaeth hanfodol am yr haint er mwyn lleihau'r risg o haint pellach. Gall sefydliadau partner Cwlwm ddarparu arweiniad mewn perthynas â chytundebau a chontractau rhieni/gofalwyr.


- **Datblygu rhestrau gwirio** i'w gweithredu os bydd cau, gan gynnwys:
  - mewn achos o gau dros dro
  - mewn achos o wacáu brys
  - ar gyfer ailagor ar ôl cau

  Dylai copïau papur o gynlluniau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer staff a phlant fod ar gael os nad yw'n bosibl cael gafael ar wybodaeth ddigidol..

- Dylid gwirio'r warchodaeth **yswiriant** a'r gofynion, gan gynnwys a ydych mewn ardal perygl o lifogydd ai peidio. Os felly, gofynnwch am gyngor ac arweiniad pellach ynghylch y gofynion yswiriant, a gwelwch y dolenni darllen pellach ar ddiwedd y canllawiau hyn. Cysylltwch â'ch darparwr yswiriant i gael arweiniad neu wybodaeth bellach. Gweler yr adran Ceisio Cymorth ar ddiwedd y canllawiau hyn i gael rhagor o wybodaeth.

- **Trefniadau ariannol** – datblygwch gynlluniau i gynnwys sut y byddwch yn:
  - talu am unrhyw gyflogau staff
  - cynnwys gorbenion fel rhent, cyfleustodau a benthyciadau
  - Trafodwch seibiant o dalu rhent gyda'ch landlord yn ystod y cyfnod cau
  - ystyriwch a oes angen yswiriant arnoch i dalu am golli enillion/incwm
  - defnyddiwch gynilion neu gronfa wrth gefn ar gyfer cyfnodau cau ac argyfyngau annisgwyl
  - casglwch ffioedd, os yw'n berthnasol. Efallai y bydd angen i chi adolygu eich contractau gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau bod cau dros dro yn cael ei gynnwys. Os bydd yn rhaid talu ffioedd cadw-lle rhaid i'r rhain fod yn deg ac yn rhesymol, gan fodloni gofynion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Yn dilyn y pandemig, cyhoeddodd CMA llythyr agored i'r sector yn ogystal â chanllawiau yn benodol ar gyfyngiadau Covid-19 a chyngor cyfraith defnyddwyr ar gyfer meithrinfeydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar
  - gwnewch yn sicr fod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am grantiau neu gyfleoedd cyllido posibl

# Hysbysiadau



Dilynwch eich polisïau a'ch gweithdrefnau a defnyddiwch restrau gwirio i sicrhau bod pob parti yn cael gwybod am gau dros dro neu argyfwng, a bod cymaint o rybudd â phosibl yn cael ei roi.

Gwnewch yn sicr ei bod yn glir pwy sy'n mynd i gysylltu â phwy, a bod y bobl berthnasol yn gallu cofnodi pan fydd hyn wedi'i wneud.

Defnyddiwch gwahanol ddulliau o gyfathrebu i ddiwallu anghenion pawb ac i sicrhau bod pawb yn cael eu hysbysu'n brydlon gyda gwybodaeth glir i leihau dryswch a phryder.

Gwnewch yn sicr fod yr holl ddata personol (er enghraifft manylion y plant a manylion cyswllt rhieni/gofalwyr) yn cael ei gadw'n ddiogel.

Bydd angen i chi hefyd hysbysu pob parti perthnasol o'r dyddiadau ailagor (gweler yr adran isod ar ailagor).

**Teuluoedd** - sicrhewch fod staff allweddol yn gallu cysylltu â phob teulu drwy eu hoff ddulliau cyfathrebu, a bod hyn yn cael ei ddilyn yn ysgrifenedig, yn ogystal â diweddariadau cyffredinol ar y cyfryngau cymdeithasol lle bo hynny'n berthnasol. Cynhwyswch wybodaeth am ofynion talu ffioedd.

**Staff** - cynhwyswch wybodaeth am drefniadau gweithio (os yw'n berthnasol) a thâl yn ystod y cyfnod cau. Efallai y bydd angen ystyried a fydd y staff yn destun newid dros dro yn eu statws cyflogaeth. Cyfeiriwch at amodau cyflogaeth ysgrifenedig aelodau unigol o'r staff. Cadwch mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff ac ystyriwch eu lles cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn.

**Eraill** – ar gyfer lleoliadau cofrestredig byddai hyn yn cynnwys AGC (drwy AGC Ar-lein) o ystyried y gofyniad i'w hysbysu am unrhyw gau a newidiadau posibl i'ch Datganiad o Ddiben. Gallai gynnwys yn ogystal DEWIS Cymru, Tîm Gofal Plant yr Awdurdod Lleol (yn enwedig y rhai a ariennir i gyflenwi darpariaeth addysg, Gofal Plant neu Dechrau'n Deg), y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Adran Addysg a Dechrau'n Deg. Byddai'r hysbysiadau hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch yn derbyn cyllid ar gyfer gofal plant neu leoedd addysg gan drydydd parti. Hefyd, ystyriwch y gallai fod angen hysbysu Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Efallai y bydd angen hysbysu'ch yswiriwr a'ch landlord hefyd, yn ddibynnol ar y rheswm dros y cau.

# Cadw mewn cysylltiad



Ystyriwch sut y gallai fod angen sawl math o gyfathrebu arnoch yn ystod cyfnod o gau, a chaniatadau gan deuluoedd a staff i gysylltu â nhw drwy ddefnyddio dulliau fel galw fideo grŵp, aps negesu ac eraill.

**Teuluoedd -** Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am y dull sydd i'w ddefnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am ba mor hir y bydd y cau yn para, a'r cynlluniau ar gyfer ailagor. Ystyriwch ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhithwir i rannu gwybodaeth a diweddariadau cyffredinol ynghyd â syniadau am weithgareddau i deuluoedd a phlant gefnogi eu lles. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu sensitif drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gallech hefyd ystyried darparu cymorth posibl (er enghraifft, darparu syniadau chwarae a gweithgareddau) i blant yn ystod cyfnodau o gau.

Ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol (er enghraifft, plant ag ADY neu anableddau), dylai lleoliadau barhau i weithio gyda'r awdurdod lleol, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, i benderfynu ar y ffordd orau o barhau i gefnogi'r plant hyn i gadw'n iach.

Byddwch hefyd yn effro i unrhyw faterion diogelu. Sicrhewch fod pawb sy'n gweithio yn eich lleoliad yn gyfarwydd â manylion person cyswllt yr awdurdod lleol a manylion y person diogelu dynodedig (PDD) yn eich lleoliad i godi pryder o'r fath.

**Staff –** Os oes angen i'r lleoliad gau dros dro am wythnos neu fwy, cytunwch ar ddulliau o gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd a goruchwylio staff i gefnogi unrhyw waith sy'n cael ei wneud, cynwysoldeb, iechyd meddwl a lles. Sicrhewch fod gan staff fanylion cyswllt rheolwr y gallant gysylltu â nhw i drafod ymholiadau neu bryderon. Ystyriwch sefydlu system cymorth cymheiriaid, fel grŵp negeseuon a rennir, er mwyn caniatáu cyfathrebu rhwng staff yn wirfoddol.

**Eraill –** Ar gyfer lleoliadau cofrestredig gall hyn gynnwys AGC, DEWIS Cymru, Tîm Gofal Plant yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Adran Addysg a Dechrau'n Deg, eich yswiriwr neu'ch landlord. Sicrhewch fod gan yr awdurdodau hyn eich holl fanylion cyswllt cyfredol.





# Cadw cofnodion

Cynhwyswch unrhyw bryderon neu anawsterau parhaus, camau gweithredu a gymerir a dyddiadau eu cwblhau.

Lle bo'n berthnasol, ceisiwch dynnu llun o unrhyw ddifrod a chadw rhestrau manwl o eitemau sydd wedi'u difrodi i gynorthwyo'ch yswirwyr i ddelio â hawliad.

**Ymhlith enghreifftiau o gofnodion y gallai fod angen i chi eu cadw y mae:**

- Asesiadau risg – cadwch yr holl fersiynau diwygiedig
- Cofnodion cyfarfodydd pwyllgor rheoli (os yw'n berthnasol)
- Rhestrau gwirio wedi'u cwblhau
- Hysbysiadau – cofnodwch pwy sydd wedi eu gwneud, pryd, y dull a ddefnyddir, a chadwch gopïau o dderbynebau cadarnhau neu e-byst
- Cadw mewn cysylltiad ar gyfer teuluoedd
- Cofnodion cadw cyswllt ar gyfer staff, yn ogystal â gwaith papur goruchwylio, nodiadau cyfarfod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt. Dylid rhannu copïau â'r staff a'u cadw ar eu ffeiliau
- Log cymorth – cadwch gofnod o bwy rydych chi wedi cysylltu â nhw i ofyn am gymorth, ymholiadau a godwyd gennych a'r atebion a dderbyniwyd

Bydd angen hefyd gadw cofnodion o ddriliau tân a gweithdrefnau gwacáu brys sydd wedi'u hymarfer, gan ddarparu manylion am sefyllfaoedd gwahanol ac unrhyw gamau gweithredu a nodwyd ac a gwblhawyd.

# Ail-agor




Os yw eich eiddo wedi'i ddifrodi'n ormodol i ailagor, ystyriwch symud i safle dros dro os oes un ar gael.  Bydd angen i chi gysylltu ag AGC (drwy AGC Ar-lein), eich Awdurdod Lleol, yswirwyr, landlord a phartïon perthnasol eraill.

Efallai y gwelwch hefyd fod rhagor o gymorth, gwybodaeth, arweiniad a llinellau cymorth ar gael gan sefydliadau partner Cwlwm neu dîm gofal plant eich awdurdod lleol.  Gallai hyn gynnwys unrhyw gymorth ariannol neu grantiau y gallech wneud cais amdanynt i gefnogi cynaliadwyedd.

Sicrhewch fod eich asesiadau risg a'ch cynllun gweithredol yn gyfredol a bod y camau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau.  Ystyriwch a oes gennych fynediad at staff eraill a all gyflenwi os oes gennych weithiwr sy'n sâl neu sy'n hunanynysu.

Gwiriwch pa gyflenwyr nwyddau, partneriaid a chontractwyr hanfodol yr ydych yn dibynnu arnynt a sut y gallai digwyddiad annisgwyl effeithio arnyn nhw hefyd, er enghraifft gan lifogydd, neu gau oherwydd haint

Clefyd y llengfilwyr – os yw eich lleoliad wedi bod ar gau am fwy nag wythnos a'r systemau dŵr poeth ac oer heb eu defnyddio, gallai fod perygl o facteria sy'n achosi clefyd y llengfilwyr dyfu yn y system. Cyfeiriwch at glefyd y llengfilwyr: Canllaw i Ddarparwyr Gofal Plant

Sicrhewch fod eich contractau gyda rhieni/gofalwyr, contractau staff, eich polisïau a gweithdrefnau a'ch datganiad o ddiben yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'ch gwasanaethau.

Hysbysiadau – bydd angen hysbysu'r holl bartïon perthnasol o'ch dyddiad ailagor. Efallai y bydd angen hysbysu staff a theuluoedd am unrhyw newidiadau i'r lleoliad a gweithdrefnau gweithredu dyddiol newydd, gan gynnwys unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

Yn achos cau oherwydd salwch heintus, efallai y byddwch am ystyried llunio cytundeb rhieni/gofalwyr i amlinellu rolau a chyfrifoldebau parthed hyn y mae angen i'ch staff a'ch rhieni/gofalwyr ei wneud i leihau'r risg o achosion heintus pellach. Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â holl ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a bod y rhain hyn yn cael eu rhannu gyda staff a rhieni/gofalwyr.  Cyfeiriwch at yr adran isod ar ofalu am eich staff.

Llifogydd - os yw eich lleoliad wedi dioddef llifogydd dilynwch ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru Glanhau yn Ddiogel.  Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i ailagor eich lleoliad ar ôl llifogydd, gan gynnwys gwybodaeth iechyd a diogelwch ar lanhau ar ôl llifogydd, gwiriadau parthed trydan, cyflenwadau nwy ac â phwy i gysylltu.  Mae dolenni at adnoddau pellach yn ymwneud â llifogydd ar gael yn yr adran ceisio cymorth isod.

## Adolygiad o weithdrefnau yn dilyn cyfnod ar gau




Yn dilyn unrhyw ddigwyddiad yn y lleoliad, mae'n bwysig cymryd yr amser i adfyfyrio ac adolygu ar yr hyn a ddigwyddodd, y camau a gymerwyd ac a ellid dysgu unrhyw wersi ar gyfer y dyfodol.

Ystyriwch sut y gallwch gynnwys pob parti wrth gasglu adborth, gan gynnwys plant, eu teuluoedd, staff, unrhyw ddefnyddwyr eraill neu gomisiynwyr eich gwasanaeth fel Dechrau'n Deg, a'ch landlord fel y bo'n briodol.

Efallai bod gwelliannau wedi'u gwneud i'ch gwasanaeth o ganlyniad i'r cau, a dylid adlewyrchu'r rhain mewn unrhyw ddiwygiadau i'ch polisïau a'ch gweithdrefnau;  gellir eu cynnwys hefyd yn eich adolygiad ansawdd gofal blynyddol. Sicrhewch fod teuluoedd, staff, unrhyw ddefnyddwyr eraill neu gomisiynwyr eich gwasanaeth, megis Dechrau'n Deg, a'ch landlord, fel y bo'n briodol, yn cael gwybod am unrhyw welliannau a wnaed.

## Cadwch yn ddigynnwrf



Efallai eich bod yn delio â llawer o bryder gan blant yn eich lleoliad yn ogystal â rhieni/gofalwyr ac, wrth gwrs, unrhyw staff y gallech fod yn eu cyflogi. Ceisiwch beidio â chynhyrfu, cadwch eich pen, a  defnyddiwch pa dactegau lleddfu straen bynnag sy'n gweithio orau i chi. Mae cadw llygad ar y newyddion diweddaraf yn ddefnyddiol ond defnyddiwch ffynonellau dibynadwy megis gan Lywodraeth Cymru, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau partner Cwlwm ac Awdurdodau Lleol.  Gall diweddariadau cyfrwng-cymdeithasol o ffynonellau heb eu gwirio ychwanegu at y lefelau pryder.

## Gofalwch am eich staff




Os ydych chi'n cyflogi staff, dylech allu esbonio i'ch gweithlu unrhyw gamau i gadw staff yn ddiogel yn y gwaith fel rhan o gynlluniau brys. Mae'n ddyletswydd arnoch i gymryd camau i sicrhau eu hiechyd a'u

diogelwch, cyn belled ag y bo'r rhai hynny'n rhesymol ymarferol . Gallwch wneud hyn drwy ymgorffori risgiau i staff yn eich asesiadau risg. Atgoffwch eich staff bod dyletswydd arnyn nhw hefyd i gymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd y plant a'r oedolion eraill y maen nhw'n cydweithio â nhw.

Enghraifft o hyn fyddai rheoli ofnau eich staff ynghylch salwch penodol neu bryderon ynghylch a yw eu swydd yn ddiogel. Gwiriwch gyngor y llywodraeth yn rheolaidd a rhannwch hyn gyda'ch staff.

Gwnewch yn sicr fod staff yn cael eu cefnogi yn ystod unrhyw gyfnod o gau drwy gadw mewn cysylltiad â nhw a darparu diweddariadau perthnasol. Gallwch gadw mewn cysylltiad dros y ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol a hefyd drwy gyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol un i un, neu gyfarfodydd tîm, i gadw lefel uchel o forâl.

## Ceisiwch gefnogaeth



Rhoddir manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau partner Cwlwm a'u gwefannau isod. Gallan nhw ddarparu mwy o wybodaeth a chefnogaeth.

Efallai y bydd timau gofal plant awdurdodau lleol yn gallu cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol yn ogystal â rhoi cyngor ar unrhyw grantiau i gefnogi eich lleoliad i ailagor.

Llinellau Cymorth - Gwiriwch i weld a oes unrhyw linellau cymorth ar gael, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol, er enghraifft Canolfan Cyngor ar Bopeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru neu wasanaethau cwnsela.



# Sefydliadau gofal plant a chwarae yng Nghymru

Mae ystod eang o gymorth a gwybodaeth ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae ar gael drwy sefydliadau partner Cwlwm a Chwarae Cymru.

Edrychwch ar eu gwefannau a'u platfformau cyfrwng-cymdeithasol a chysylltwch â nhw›n uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau neu bryderon a fydd gennych.

**Sylwch y gall rhai adnoddau fod ar gael am ddim i bawb, mae'n bosibl y bydd rhai adnoddau'n gyfyngedig i aelodau yn unig, ac yn achos rhai eraill efallai y bydd tâl bychan yn ddyledus gan y sawl nad ydynt yn aelodau**

### Clybiau Plant Cymru Kids Clubs

Stepping Out Policies and Procedures Eng

Camu Allan Polisïau a Gweithdrefnau Cym

---

### Blynyddoedd Cynnar Cymru

Siop - adnoddau

Adnoddau aelodau

---

### Mudiad Meithrin

Polisi cau Cylch Meithrin dros dro

---

### Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)

Ffeithlen – Cyngor ar Lifogydd (Cymru)

Hyb Gwybodaeth Coronafeirws

---

### PACEY Cymru

Diogelu eich busnes

Gwacáu brys

# Ffynonellau Pellach o wybodaeth

Mae amrywiaeth o sefydliadau cynnig gwybodaeth a chefnogaeth; gweler isod ambell ddolen ddefnyddiol.

- **Canllawiau Llywodraethol**
  Canllawiau i leoliadau addysg a gofal plant ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt [Ebrill 2023]

  Canllawiau gofal plant a gwaith chwarae: coronafeirws
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**
  Atal a Rheoli Haint: Canllawiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ac Lleoliadau Addysgol
- **Busnes Cymru**
  Covid-19 a chefnogaeth a chanllawiau ariannol eraill
- **ACAS**
  ACAS Arweiniad ar Coronafeirws
- **Canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)**
  Cyfyngiadau a chyngor ar gyfraith defnyddwyr ar gyfer meithrinfeydd a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar

---

## Llifogydd/Tywydd Eithafol

- **Llywodraeth Cymru**
  Rhybuddion Llifogydd a Help, yn cynnwys dolenni a chyfeirio at wybodaeth bellach ar yr hyn i'w wneud os yw oes llifogydd ar fin digwydd, yn ystod y cyfnodau cyn ac ar ôl llifogydd, yswiriant llifogydd a help ariannol.
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
  Beth i'w wneud cyn,  yn ystod ac ar ôl llifogydd a beth i'w wneud os oes llifogydd ar fin digwydd https://naturalresources.wales/flooding/what-to-do-in-a-flood/?lang=cy
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**
  Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth a deunydd Cyngor Cyffredinol a Glanhau'n Ddiogel i'w lawrlwytho.
- **Rhybuddion y Swyddfa Dywydd**
  www.metoffice.gov.uk/weather/warnings-and-advice  ac
- **Ansawdd Aer Cymru**
  Ansawdd Aer yng Nghymru (llyw.cymru)

Diweddarwyd Ebrill 2023

www.cwlwm.org.uk

